



Canllawiau Rhyngweithio neu Gystadlu ar raglenni S4C
Awst 2011

1. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cynyrchiadau sy'n cynnig cystadlaethau neu gyfleoedd pleidleisio neu ryngweithio o fewn neu mewn cysylltiad â rhaglenni S4C. Mae angen i'r cwmnïau cynhyrchu ddilyn y canllawiau sylfaenol hyn ar gyfer y gweithgaredd. Disgwylir cysondeb a thegwch yn y dulliau o brosesu gweithgaredd rhyngweithiol a'u bod yn cael eu gweithredu yn deg a chyfreithlon gan beidio â chamarwain y gynulleidfa mewn unrhyw ffordd.
 - 1.1 Mae rhaglenni S4C yn cynnig y cyfle i wylwyr gymryd rhan yn y categorïau canlynol:
 - 1.1.1 gwylwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen fel cystadleuwyr e.e. cwisiau;
 - 1.1.2 cyfleoedd i bleidleisio;
 - 1.1.3 gwylwyr yn cystadlu drwy wasanaethau ffôn, post neu ar-lein;
 - 1.1.4 gwylwyr yn ffonio i mewn neu ryngweithio gyda'r rhaglen, i holi cwestiwn, neu roi barn (e.e. gemau, trafodaethau stiwdio) drwy wasanaethau ffôn, ar-lein neu drwy'r post;
 - 1.1.5 anfon cynnwys i'w ddefnyddio mewn rhaglen neu wasanaethau (e.e. lluniau, gwaith llenyddol, llythyrau ayb);
 - 1.1.6 lawrlwytho deunydd a fyddai'n gysylltiedig â rhaglen.

Mae'n ofynnol i gynhyrchwyr gydymffurfio gyda'r Canllawiau hyn

2. Comisiynu

- 2.1 Fel rhan o'r broses o ddatblygu a pharatoi rhaglen, dylid trafod manylion llawn am natur y gwasanaeth rhyngweithiol neu'r gystadleuaeth sy'n cael ei gynnig, a'i gyddestun golygyddol, gyda'r aelod perthnasol o'r tîm comisiynu yn S4C.
- 2.2 Rhaid i gynhyrchwyr roi manylion llawn o unrhyw fwrriad i gynnwys unrhyw weithgaredd rhyngweithio o fewn rhaglenni neu mewn cysylltiad â/yn cydreddeg â'r rhaglenni a gynhyrchir, ac unrhyw ddefnydd arall o linellau ffôn/testun, yn Adran 2.11 o'r Briff Golygyddol a Busnes, Rhan 1. **Rhaid cael caniatâd S4C o flaenllaw cyn trefnu unrhyw weithgaredd rhyngweithiol.**
- 2.3 Dylid darparu manylion llawn am oedran targed a lefel gwybodaeth y gynulleidfa darged.
- 2.4 Dylai'r dull(iau) o ryngweithio fod mor agored ac ymarferol ag sy'n bosib.
- 2.5 Mae S4C yn credu y dylai gwylwyr sy'n dymuno cymryd rhan mewn cystadlaethau neu ddefnyddio llinellau ffôn neu destun allu gwneud hynny am gost sy'n rhesymol i'r defnyddiwr ond sy'n ddigonol i dalu costau darparu'r gwasanaeth rhyngweithio. O dro i dro, gall fod sail i godi cyfradd uwch a bydd angen i S4C gymeradwyo hynny o flaenllaw. Os nad yw'r Cynhyrchydd yn siŵr o'r gwahanol rifau a'r costau arfaethedig, gan gynnwys rhifau cyfradd premiwm, gall y linc isod fod o gymorth - <http://consumers.ofcom.org.uk/files/2010/01/numbering.pdf>
- 2.6 Disgwylir i gynhyrchwyr gynnig gwasanaeth rhyngweithio heb gost i gyllideb y rhaglen. Dylid nodi'r rhagdybiaethau ynglŷn â chost darparu'r gwasanaeth ac amcangyfrif o'r defnydd ohono a'r incwm yn deillio ohono wrth gyflwyno cyllideb y rhaglen.

- 2.7 Rhaid i bob Cynhyrchydd sydd yn dymuno defnyddio gwasanaeth cyfradd premiwm (P.R.S.) neu sy'n rhagweld y gall ddefnyddio'r fath wasanaeth gofrestru gyda PhonepayPlus (<http://www.phonepayplus.org.uk>) ar unwaith ac yn sicr cyn 1af o Fedi 2011. Ni all y Cynhyrchydd gytundebu gyda cwmni sydd yn darparu gwasanaeth cyfradd premiwm oni bai fod y cwmni wedi ei gofrestru gyda PhonepayPlus.
- 2.8 Rhaid i bob Cynhyrchydd sicrhau ei fod wedi ymgymryd â phroffion diwydrwydd dyladwy ar unrhyw drydydd parti y mae yn cytundebu â nhw ar gyfer gwasanaeth cyfradd premiwm, yn ogystal â chynnal asesiad risg ac ymarfer rheolaeth dros y fath drydydd partïon. Rhaid i'r Cynhyrchydd sicrhau a bodloni S4C bod y gwasanaethau o safon dechnegol ddigonol.
- 2.9 Rhaid i unrhyw gytundeb gyda thrydydd parti sydd yn darparu gwasanaeth cyfradd premiwm gynnwys cymal sydd yn cydnabod y bydd y naill barti a'r llall i'r cytundeb yn cydymffurfio â Chod PhonepayPlus ac unrhyw ganllawiau sydd yn ymwneud â'r Cod ac, yn unol ag Adran 1 Deddf Cytundebau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999, bod gan PhonepayPlus y pwerau i orfodi telerau priodol y cytundeb.
- 2.10 Wedi cyflwyno'r cynlluniau ar gyfer elfen gystadleuol/ryngweithiol, disgwylir i ganiatâd ysgrifenedig gael ei roi gan yr aelod perthnasol o dîm comisiynu S4C cyn symud ymlaen.
- 2.11 Bydd angen gwneud hyn ar gyfer pob cyfres ac i ddilyn unrhyw newidiadau o fewn rhediad cyfres, a'i adnewyddu yn flynyddol neu mewn cyfnod llai os oes cyfres newydd o fewn y flwyddyn.
- 2.12 Dylai'r cwmni cynhyrchu ddilyn y canllawiau ar gyfer y math arbennig o ryngweithio sydd yn cael ei gynllunio (gweler yr Atodlenni i'r Canllawiau isod), ac anfon y dogfennau priodol at yr aelod perthnasol o'r tîm comisiynu yn S4C yn ogystal â bethan.jenkins@s4c.cymru erbyn dyddiad derbyn Rhan 1 y Briff Golygyddol a Busnes.
- 2.13 Mae hyn er mwyn sicrhau fod trefniadau priodol yn eu lle cyn darlledu a bod unrhyw wybodaeth berthnasol ar gael i'r cyhoedd yn llawer cynt na darllediad y rhaglen/gyfres.
- 2.14 Cesglir yn ganolog gan S4C y wybodaeth a gyflwynir yn y Briff Golygyddol a Busnes ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n delio â rhyngweithio gyda'r gynulleidfa.

3. Gweithredu

- 3.1 Bydd S4C yn ymgorffori'r Briff Golygyddol a Busnes yn y cytundeb comisiynu ac yn disgwyl i gynhyrchwyr gydymffurfio â'r manylion sydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.
- 3.2 Ni fydd yr anghenion rhyngweithio yn cyfaddawdu neu'n effeithio ar gyfrifoldebau cytundebol cynhyrchwyr i gynhyrchu rhaglenni sy'n cydymffurfio â'r holl godau perthnasol a gwarantau'r cynhyrchwyr.
- 3.3 Ymhob achos, rhaid rheoli pob gwasanaeth a gynigir yn gyfreithlon a theg yn unol â chanllawiau PhonepayPlus ac Ofcom.

- 3.4 Dylid cynnal asesiad risg o'r trefniadau ar gyfer y rhyngweithio, a sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i ddelio gydag unrhyw risgiau a adnabyddir drwy'r broses.
- 3.5 Lle mae newidiadau yn y manylion rhyngweithio yna dylid hysbysu'r aelod perthnasol o dîm comisiynu S4C o'r newidiadau hynny. Mewn achos o'r fath, dylid adolygu'r asesiad risg ac (os yn briodol) sicrhau bod y trefniadau ar gyfer y rhyngweithio yn cael eu diweddarau.
- 3.6 Dylai'r cwmni fod ag un person cyswllt yn y tîm cynhyrchu â chyfrifoldeb ar gyfer rheoli'r gwasanaethau rhyngweithio/cystadlaethau.
- 3.7 Bydd disgwyl i'r cwmni cynhyrchu hefyd sicrhau fod yr holl staff cynhyrchu sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd rhyngweithio yn ymwybodol o reolau ac amodau'r rhyngweithio/gystadleuaeth a gofynion y canllawiau hyn.
- 3.8 Mewn pob achos ble anogir rhyngweithio ar y teledu/wefan/print ac yn y blaen fe ddylid arddangos gwybodaeth am y rheolau, yr amodau cymryd rhan ac unrhyw gostau perthnasol yn glir i'r defnyddiwr.
- 3.9 Os oes data'n cael ei gasglu fel rhan o'r rhyngweithio/cystadlaethau, rhaid i'r cwmni cynhyrchu ac unrhyw drydydd parti sy'n rhan o system weinyddu'r rhyngweithio arwyddo cytundeb sydd yn cynnwys fel lleiafswm y cymalau diogelu data a gynhwysir yn yr Atodlenni isod.

4. Monitro ac atebolrwydd

- 4.1 Caiff yr wybodaeth a gyflwynir yn y Briff Golygyddol a Busnes a gwybodaeth ychwanegol yn gysylltiedig â rhyngweithio ei gasglu'n ganolog gan S4C.
- 4.2 Dylai'r cwmni cynhyrchu fod â phrosesau addas ar gyfer cofnodi'r holl weithgaredd rhyngweithio, ac i ddelio ag unrhyw ymholiadau neu gwynion a dderbynnir mewn cysylltiad â rhyngweithio/cystadlu.
- 4.3 Bydd S4C yn ymgorffori darpariaeth ar gyfer archwilio yn y cytundeb comisiynu a fydd yn rhoi'r hawl i S4C benodi archwilydd annibynnol i archwilio'r ddogfennaeth a'r systemau ar gyfer y rhyngweithio/y gystadleuaeth. Gallai hyn fod yn archwiliad cynlluniedig i wirio ei fod yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r systemau a amlinellir yn y cytundeb, neu mewn ymateb i gŵyn neu broblem benodol.
- 4.4 Ar ddiwedd pob cyfres neu yn flynyddol yn achos cyfres hir, dylai'r cwmni cynhyrchu ddarparu adroddiad i S4C ar unrhyw weithgareddau rhyngweithio yn y gyfres dros gyfnod yr adroddiad, gan gynnwys:
 - faint o wasanaethau rhyngweithio a gynigiwyd i wylwyr/defnyddwyr;
 - faint o ymateb a gafwyd;
 - beth oedd costau'r gwasanaethau rhyngweithio;
 - faint o incwm a dderbyniwyd o'r gwasanaethau rhyngweithio;
 - unrhyw gwynion yn deillio o'r gwasanaethau rhyngweithio.

5. Hyfforddiant

- 5.1 Bydd S4C yn darparu hyfforddiant priodol i staff S4C yn fewnol ynglŷn â'r canllawiau.
- 5.2 Dylai'r cwmni cynhyrchu fod â threfniadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo (induction) i'w staff a fyddai'n ymwneud a rhyngweithio a chystadlaethau, gan sicrhau gwybodaeth drwyadl o'r canllawiau hyn.

6. Adolygu'r canllawiau

- 6.1 Byddwn yn adolygu ein trefniadau a'n canllawiau o bryd i'w gilydd, ac o leiaf bob tair blynedd. Byddwn hefyd yn ystyried argymhellion unrhyw broses ymgynghori gan Ofcom ar deledu cyfranogol ac unrhyw god neu ganllawiau newydd sy'n effeithio ar y gwasanaethau hyn.
- 6.2 Os oes unrhyw gwestiwn neu gais am ragor o wybodaeth mewn cysylltiad â'r canllawiau hyn yna gellir cyfeirio unrhyw ymholiad at yr aelod perthnasol o dîm comisiynu S4C.

Atodlenni i'r Canllawiau

1. Rhaglen sy'n gystadleuaeth (e.e. cwis)

- 1.1 [Awgrym o reolau ar gyfer rhaglenni sy'n gystadleuaeth.](#)
- 1.2 [Cymalau diogelu data \(Ffurflen safonol TAC\).](#)

2. Cystadleuaeth i ennill gwobr o fewn rhaglen, neu weithgaredd cysylltiedig

- 2.1 [Ffurflen gystadlu.](#)
- 2.2 [Awgrym o reolau i ennill gwobr mewn cystadlaethau mewn rhaglenni neu weithgaredd cysylltiedig.](#)
- 2.3 [Cymalau diogelu data \(Ffurflen safonol TAC\).](#)

3. Pleidleisio

- 3.1 [Ffurflen pleidleisio.](#)
- 3.2 [Awgrym o reolau pleidleisio.](#)
- 3.3 [Cymalau diogelu data \(Ffurflen safonol TAC\).](#)

4. Cyfraniadau gwylwyr i'w ddefnyddio mewn rhaglen neu wefan

- 4.1 [Ffurflen anfon cyfraniad.](#)
- 4.2 [Amodau ar gyfer anfon cyfraniadau.](#)
- 4.3 [Cymalau diogelu data \(Ffurflen safonol TAC\).](#)

5. Lawr lwytho deunydd

- 5.1 [Ffurflen lawr lwytho deunydd.](#)